**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000

## Y Cefndir

Yn ddarostyngedig i rai darpariaethau trosiannol, dileodd Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 y Cynllun Cymorth Lleoedd a roddai gymorth i ddisgyblion fynychu ysgolion annibynnol. Mae'r trefniadau trosiannol yn caniatáu i'r disgyblion sy'n cael cymorth ar hyn o bryd barhau yn eu hysgol.

Ymwneud â lefel y ffioedd sy'n daladwy gan ddisgyblion o'r fath y mae'r Rheoliadau hyn ac maent yn cynyddu lefel yr "incwm perthnasol". Ar y lefel hon, neu odani, nid yw'r ffioedd yn cael eu casglu o gwbl, ac mae'r lefel honno yn cael ei chynyddu o £10,670 i £10,901. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynyddu'r didyniad mewn "incwm perthnasol" y gellir ei ganiatáu mewn perthynas â pherthnasau dibynnol, o £1,300 i £1,400.

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer y materion uchod drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 (lle diffinnir y term "relevant income").

Mae Rheoliadau tebyg ar y gweill ar gyfer Lloegr. Bwriedir iddynt hwythau hefyd ddod i rym ar 1 Medi 2000, ond nid ydynt wedi'u gwneud hyd yn hyn.

## Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau Cyffredinol

### Y Nodyn Esboniadol

Cyfeirir yn y nodyn at 'incwm "perthnasol"'. Gan fod yr ymadrodd cyfan wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau 1997 (ac nid dim ond y gair "perthnasol"), fe ddylai'r dyfynodau fod wedi'u gosod o boptu i'r ymadrodd cyfan, er mwyn ei gwneud yn glir mai cyfeirio at y diffiniad blaenorol o "relevant income" a wneir.

**Rheoliad 2(4) – Tabl**
Mae’r geiriau "(if any)" wedi’u hepgor o’r golofn gyntaf. Unwaith eto, gan eu bod wedi’u cynnwys yn y tablau blaenorol, credir mai hepgoriad anfwriadol oedd hwn.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**9 Mehefin 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-124